Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister & Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-HIDCC-5465-24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales

9 Awst 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynnu a Gwastraff Pecynnu) 2024 ("y Rheoliadau").

Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o dan ddarpariaethau canlynol Deddf yr Amgylchedd 2021:

- adrannau 50 - 52, 142(1), (6) a (10), a 143(1),
- paragraffau 1-5, 7 a 12 o Atodlen 4,
- paragraffau 1-9 ac 11-17 o Atodlen 5, a
- paragraffau 1, 4, a 7-12 o Atodlen 7.

Mae adrannau 50(3), 51(3) a 52(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau o'r fath mewn perthynas â Chymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r Rheoliadau yn gymwys yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Bydd y Rheoliadau yn dirymu Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd blaenorol (Gwastraff Pecynnu) 2007 a Rheoliadau Gwastraff Pecynnu (Casgliadau Data ac Adrodd) (Cymru) 2023 ac yn cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig (EPR) ar gyfer gwastraff pecynnu a phecynnu. Mae gweithredu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu'r weinyddiaeth hon a bydd y cynllun hwn ar gyfer

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

pecynnu yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pecynnu i dalu'r gost net lawn o reoli gwastraff pecynnu a darparu gwybodaeth gyhoeddus am waredu gwastraff pecynnu. Bydd hyn yn arwain at gostau rheoli gwastraff pecynnu yn cael eu talu gan y cynhyrchwyr sy'n defnyddio ac yn cyflenwi pecynnu, gan ddefnyddio'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu." Bydd ffioedd y cynhyrchwyr yn cael eu casglu gan weinyddwr cynllun a benodir ar y cyd gan bedair llywodraeth y DU a fydd yn dosbarthu'r arian hwn i awdurdodau lleol. Bydd y cynllun ar gyfer pecynnu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gyrraedd targedau ailgylchu pecynnu a mabwysiadu label clir 'Ailgylchu/Peidiwch ag ailgylchu' fel ei bod yn haws i bobl wybod sut i ailgylchu eu gwastraff pecynnu.

Gyda'i gilydd, nod y mesurau hyn yw gweithredu fel cymhelliant clir i gynhyrchwyr leihau deunydd pacio diangen, dylunio deunydd pacio sy'n hawdd ei ailgylchu, annog y defnydd o ddeunydd pacio y gellir ei ailddefnyddio ac y gellir ei ail-lenwi, a lleihau sbwriel pecynnu. Felly, mae cynllun EPR ar gyfer pecynnu yn bwysig wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur ac adeiladu economi gryfach, wyrddach wrth i ni symud ymlaen tuag at Gymru sero net.

Er mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion cymhwysedd datganoledig, mewn rhai amgylchiadau mae manteision o wneud hynny ar y cyd â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Yn yr achos hwn, bydd yn galluogi un Offeryn Statudol ar draws y DU gyfan i wneud darpariaeth ar gyfer cynllun sy'n gweithredu ar draws y DU i gyd fel yr ymgynghorwyd arno, ac felly'n sicrhau cysondeb ar draws y DU. Felly mae'n briodol bod y Rheoliadau yn cael eu gwneud ar sail y DU gyfan.

Rhagwelir y bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol a disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Ionawr 2025. Bydd cadarnhad terfynol o osod y Rheoliadau yn amodol ar raglen ddeddfwriaethol gweinyddiaeth newydd y DU.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Mike Hedges, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister & Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs